# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd PA Davies**

**Ward: Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr**

**Plaid: Y Blaid Lafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30/04/2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr ar 4 Mai 2012. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 64 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi cefnogi'r trigolion i fynd i'r afael â materion fel baw cŵn, goleuadau stryd, materion parcio a chasgliadau sbwriel sydd wedi cynnwys cwynion am beidio â chyflenwi bagiau, blychau a chasgliadau. Rwyf hefyd wedi gallu cynorthwyo etholwyr anabl i gael eu bathodynnau glas a'u helpu i fynd i'r afael â nifer o ymholiadau gwasanaethau cymdeithasol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Bu'n flwyddyn brysur iawn arall i mi oherwydd yn ogystal ag ymgymryd â'm cyfrifoldebau fel cynghorydd ward, cefais fy ethol yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a dinesydd cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rwyf wedi eistedd ar Bwyllgor Elusennau Dinesig y Maer eleni gan godi arian ar gyfer fy nhair elusen, gan gynnwys Cymdeithas Alzheimer's, Uned Canser y Fron Ysbyty Tywysoges Cymru a Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr. Daw fy nhymor yn y swydd yn dod i ben ar 23 Mai 2018 pan gaiff y Maer newydd ei ethol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n eistedd ar Gyngor Cymuned Trelales ac rwyf hefyd yn llywodraethwr Ysgol Fabanod ac Iau Bryntirion.   Rwyf hefyd yn eistedd ar fforwm aelodau ymddeoledig Unite Uno'r Undeb yng Nghaerdydd.'
Rwyf wedi bod i gyfarfodydd gyda'r Blaid Lafur a chymryd rhan mewn digwyddiadau.  Cymerais ran yn y "Daith Gerdded Strôc" ar 20/05/2017 yng Nghaeau Newbridge a chodi arian ar gyfer y gymdeithas mawr ei hangen hon.

**Y Cynghorydd:P A Davies** **Dyddiad: 15 Mai 2018**